# PANEL PENODIADAU ARBENNIG (PRIF WEITHREDWR)

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun ar 27 Mawrth 2009 am 2.00 p.m.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr E W Williams (Cadeirydd), J Thompson- Hill, I Gunning, R W Hughes, C M Evans, J Butterfield, M M Jones, P J Marfleet, H H Evans

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Personél, Swyddog Personél (L M Jones), Susan Cordiner i Glerc y Sir, Luke Judd (Gatenby Sanderson)

## YMDDIHEURIADAU

Dim

## RHAN 1

### 1 MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

### 2 COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig (Prif Weithredwr) yn amodol ar bwynt eglurhad parthed yr amserlen gyfweliadau ac y byddai cyflwyniadau gan ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwneud i Gyngor Llawn.

### 3 EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 1001(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

## 4 GRŴP GORCHWYL A GORFFEN TÂL SEILIEDIG AR BERFFORMIAD Y PRIF WEITHREDWR

Cyflwynodd y Pennaeth Personel adroddiad yn codi o ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Tâl Seiliedig ar Berfformiad sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 7 Ebrill 2009. Mae'r adroddiad yn ymdrin â chynigion am Banel Tâl i fynd i'r afael â mater tâl seiliedig ar berfformiad a phanel ar gyfer Gwerthusiad Perfformiad y Prif Swyddog Gweithredol. Awgrymodd y Panel fod gwahanol Aelodau'n eistedd ar bob panel gydag un aelod o'r panel Gwerthuso Perfformiad yn eistedd ar y Panel Tâl. Arweinwyr Grŵp a fydd yn penderfynu yn y pen draw pwy sy'n eistedd ar y paneli hyn.

Trafodwyd trefniadau cyfansoddiadol rywfaint. Cynghorodd y Pennaeth Personel fod Clerc y Sir o'r farn y gall y Cyngor gymeradwyo sefydlu dau banel heb gyfeirio yn gyntaf at y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ond y byddai angen i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ystyried manylion gwaith manylach y Paneli hynny.

Awgrymwyd ymhellach na allai gwerthusiad perfformiad effeithiol ddigwydd nes bod y Prif Weithredwr newydd wedi bod yn ei swydd am 6-9 mis a byddai hyn yn caniatáu digon o amser i ddatrys materion cyfansoddiadol.

## 5 CYFNOD CYFWELIAD TERFYNOL Y PRIF WEITHREDWR

Bu Luke Judd o Gatenby Sanderson yn amlinellu'r broses recriwtio hyd yma ac yn nodi manylion y broses o lunio rhestr hir i'w chynnal gan Gatenby Sanderson a fyddai'n arwain at restr fer o ymgeiswyr i gymryd rhan yn y broses ddewis ar 20, 21 Ebrill a 22 Ebrill 2009. Mae cyfweliadau'r ymgeiswyr ar y rhestr hir am gael eu cynnal ar 1 a 2 Ebrill 2009 gyda'r rhestr fer yn cael ei llunio ar 14 Ebrill 2009.

Bu'r Panel yn ystyried cynnwys rhanddeiliaid yn y broses recriwtio ac yn ystyried y dylid caniatáu iddynt roi adborth ond nid cyfranogi yn y broses benderfynu derfynol.

## 6 PENODI PRIF WEITHREDWR – LLUNIO RHESTR HIR

Wedyn, bu Aelodau'n ystyried y pedwar cais ar bymtheg a gafwyd ac a gylchredwyd iddynt. Eglurodd Ymgynghorydd y Cyngor natur ei rôl a sut oedd y recriwtio wedi mynd rhagddo. Cyflwynodd yr Ymgynghorydd fanylion ceisiadau/Curriculum Vitae pob ymgeisydd, gan grynhoi gyrfa ddiweddar a chymhelliad i ymgeisio, sgiliau a phrofiad perthnasol a chrynodeb ac argymhellion.

Bu'r Aelodau'n ystyried rhinweddau pob un o'r pedwar cais ar bymtheg a gylchredwyd.

***PENDERFYNWYD*** *bod ymgeiswyr 2, 3, 5, 6, 7, 9, 10, 12, 13, 14 a 15 yn symud ymlaen i'r rhestr fer.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30 p.m.